**Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg**
**2 Rhagfyr 2025 @ 14:00-16:00**
**Agenda**

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Teitl** | **___________________Sefydliad** |
| Claire Beynon (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd | BIP Caerdydd a'r Fro |
| Tom Bowring (TB) | Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Rob Thomas (RT) | Prif Weithredwr | Cyngor Bro Morgannwg |
| Y Cynghorydd Lis Burnett (LB) | Arweinydd (Cadeirydd BGC) | Cyngor Bro Morgannwg |
| Miki Miyata-Lee (MML) | Uwch Swyddog – Gweithrediadau Canolbarth y De | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Martin O'Keefe (MK) | Rheolwr Grŵp | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Rachel Connor (RC) | Prif Swyddog Gweithredol | Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg |
| Natalie Rees (NR) | Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd | Trafnidiaeth Cymru |
| Marc Attwell (MA) | Pennaeth Cymunedau a Phartneriaethau | Heddlu De Cymru |
| Estelle Hitchon (EH) | Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu | Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Judith Cole (JC) | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau'r Gweithlu | Llywodraeth Cymru |
| Elizabeth Jones (EJ) | Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau | Cyngor Bro Morgannwg |
| David Letellier (DL) | Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Phil Summers (PS) | Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned | Cyngor Cymuned Pen-llin |
| Eirian Evans (EE) | Pennaeth Caerdydd a'r Fro | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| **Hefyd yn bresennol:** | | |
| Helen Moses (HM) | Rheolwr Gweithredol Strategaeth a Mewnwelediad | Cyngor Bro Morgannwg |
| Lloyd Fisher (LF) | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Mewnwelediad | Cyngor Bro Morgannwg |
| Andreas Pieris-Plumley (APP) | Partner Strategaeth a Mewnwelediad | Cyngor Bro Morgannwg |

| | | |
|---|---|---|
| Mali Evans-Lugg (MEL) | Hyfforddai Strategaeth a Mewnwelediad | Cyngor Bro Morgannwg |
| Jo Aspinall (JA) | Rheolwr Gweithredol - Cymorth ac Atal Cynnar | Cyngor Bro Morgannwg |
| Suzanne Wood (SW) | Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus | BIP Caerdydd a'r Fro |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Suzanne Rankin (SR) | Prif Weithredwr | BIP Caerdydd a'r Fro |
| Kirsty Williams (KW) | Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol | BIP Caerdydd a'r Fro |
| Karen Lamprey (KL) | Pennaeth Cynorthwyol - Cwricwlwm | Coleg Caerdydd a'r Fro |

| Rhif | Eitem Agenda | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso a Chyflwyniadau** - Lis Burnett, Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | |
| **2.** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb** - Andreas Pieris-Plumley, Swyddog Polisi, Cyngor Bro Morgannwg | |
| **3.** | **Cofnodion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 24 Medi 2025 -** Lis Burnett, Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol. | |
| **4.** | **Gwasanaeth Cwmpawd Teulu** – Jo Aspinall, Rheolwr Gweithredol – Cymorth Cynnar ac Atal, Cyngor Bro Morgannwg<br><br>Esboniodd JA mai'r rheswm dros sefydlu Cwmpawd Teulu y Fro oedd nod cyffredin gyda phartneriaid i greu ffordd effeithiol i blant a'u teuluoedd gael mynediad at wasanaethau sy'n ymatebol i'r angen ar yr adeg iawn. Amlinellodd fod sgyrsiau wedi digwydd gyda phartneriaid mewnol ac allanol i gytuno beth oedd yn gweithio'n dda, beth y gellid ei wella, a ble roedd angen cynnydd. Y cytundeb oedd datblygu drws ffrynt integredig ar draws gwasanaethau plant cymorth cynnar a statudol, gan integreiddio'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, llinell gyngor Teuluoedd yn Gyntaf, gwaith atal, a'r tîm derbyn. Bydd y drws ffrynt integredig hwn bellach yn cael ei alw'n Cwmpawd Teulu y Fro.<br>Tynnodd JA sylw at y ffaith bod yr ysgogwyr ar gyfer y newid hwn yn cynnwys y cyfle i symleiddio pwyntiau mynediad ar gyfer timau ac asiantaethau allanol, lleihau dyblygu, a chreu un drws ffrynt ar gyfer atgyfeiriadau. Nododd mai nod y dull yw darparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn, gan leihau uwchgyfeirio pan nad yw atgyfeiriadau yn cyrraedd y man iawn.<br><br>Esboniodd JA fod partneriaethau wedi'u cryfhau i sicrhau dealltwriaeth a chyfraniadau cyffredin rhwng timau mewnol a phartneriaid allanol, gan alluogi ffocws ar waith cymunedol. Disgrifiodd y wefan fel un hunan-arweiniol, gan gysylltu â phartneriaid ac adnoddau cymunedol, a galluogi teuluoedd i gael mynediad at y cymorth a'r wybodaeth iawn yn gyflym.<br><br>Cadarnhaodd JA y byddai system brysbennu fewnol yn nodi anghenion a chanlyniadau i deuluoedd, gan eu cyfeirio i'r lefel briodol o gymorth, boed hynny'n gamau atal yn y gymuned neu'n wasanaethau statudol. Pwysleisiodd y byddai'r un | **MK i rannu manylion cyswllt JA â phartneriaethau allgymorth ieuenctid i ganiatáu cymorth cilyddol ar gyfer gweithgareddau atal.** |

| | | |
|---|---|---|
| | pwynt mynediad yn ymateb i ymholiadau o fewn 24 awr ac yn sicrhau bod atgyfeirwyr yn cael eu hysbysu am y camau nesaf.<br><br>Nododd JA fod y wefan wedi'i chynllunio i fod yn groesawgar ac yn hawdd ei llywio, gyda botymau lliw ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth, ac amddiffyniad. Esboniodd fod y wefan yn darparu dolenni i adnoddau fel gwarchodwyr plant, canllawiau diogelu, a chymorth rhianta. Mae'r safle ar gael bob awr o bob dydd ac mae'n cynnwys un rhif ffôn a blwch post canolog, gan ddisodli'r blwch post dyletswydd blaenorol. Hafan - Cwmpawd Teulu y Fro<br><br>Pwysleisiodd JA fod yr holl waith yn cyd-fynd â'r ffurflen atgyfeirio genedlaethol newydd a'r canllawiau trothwy, a fydd yn cael eu cynnal ar dudalen lanio Cwmpawd Teulu y Fro. Esboniodd fod y ddogfen drothwy, a ddatblygwyd trwy ymgynghoriad helaeth, yn nodi pedair lefel o angen: cyffredinol, ychwanegol, cymhleth ac acíwt. Y nod yw sicrhau eglurdeb a hygyrchedd i weithwyr proffesiynol a theuluoedd.<br><br>Cadarnhaodd JA fod Cwmpawd Teulu y Fro wedi'i lansio ar 3 Tachwedd ac y bydd rhagor o gyfarfodydd â phartneriaid yn cael eu cynnal yn y flwyddyn newydd i adolygu adborth a gwneud gwelliannau. Gwahoddodd bartneriaid i rannu adnoddau y gellid eu cynnal ar y wefan i wella hygyrchedd i deuluoedd.<br><br>Gofynnodd CB a oedd unrhyw geisiadau i'r Bwrdd Iechyd o ran gwneud cysylltiadau â gwahanol wefannau neu a oedd hyn wedi'i ddatrys eisoes.<br><br>Esboniodd JA ei bod wedi cwrdd â chydweithwyr y Bwrdd Iechyd a chadarnhau bod proses y Bwrdd Iechyd ar gyfer cyflwyno atgyfeiriadau yn parhau heb ei newid. Fodd bynnag, nododd y byddai cyfeiriad Cwmpawd Teulu y Fro yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw gwestiynau ac ymholiadau bellach.<br><br>Diolchodd MK i JA am y cyflwyniad a gofynnodd a oedd cysylltiadau wedi'u sefydlu â’r Gwasanaeth Tân ac Achub. Awgrymodd MK y gallai rhannu manylion cyswllt JA alluogi cysylltiad defnyddiol â phartneriaethau allgymorth ieuenctid a chaniatáu cymorth cilyddol ar gyfer gweithgareddau atal.<br><br>Cadarnhaodd JA y byddai hyn yn ddefnyddiol iawn a chroesawodd yr awgrym<br><br>Diolchodd LB i MK am ei gyfraniad. Tynnodd LB sylw at y ffaith ei bod hi'n hoffi'n arbennig y cyfeiriad at un drws ffrynt ac esboniodd ei bod wedi clywed y cysyniad yn cael ei ddisgrifio o'r blaen fel 'dim drws anghywir'. Awgrymodd LB fod y dull hwn yn anfon neges glir i ddefnyddwyr na fyddan nhw’n anghywir pa lwybr bynnag y byddan nhw’n ei ddilyn ac y bydd y sefydliad yn dod o hyd i'r ateb iawn ar eu cyfer. Dywedodd LB fod yr egwyddor hon wedi'i chyfleu'n dda yn y cyflwyniad. Diolchodd LB i JA am ei hamser a'i chyfraniad at y cyfarfod. | |
| **5.** | **Adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd –** Claire Beynon, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd<br>Cyflwynodd CB adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ac esboniodd mai ei bwrpas yw taflu goleuni ar faterion iechyd y cyhoedd arwyddocaol. Nododd fod adroddiad y llynedd wedi canolbwyntio ar iechyd plant | **CB i rannu'r sleidiau ac unrhyw ddeunyddiau perthnasol eraill** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | o'u genedigaeth i bum mlwydd oed, tra bod adroddiad eleni yn mynd i'r afael â gordewdra a diabetes a'u heffaith ar gymdeithas. Pwysleisiodd CB fod yr adroddiad yn ofyniad proffesiynol annibynnol ac yn cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg.<br><br>Tynnodd CB sylw at y ffaith bod yr adroddiad yn dangos sut y gall cydweithio wella iechyd a lles a newid canlyniadau yn y dyfodol. Rhannodd ystadegau allweddol, gan gynnwys bod un o bob deg o blant yng Nghaerdydd a'r Fro yn byw â gordewdra erbyn iddyn nhw ddechrau yn yr ysgol gynradd, a bod un o bob pump o oedolion yn byw â gordewdra, gyda chyfraddau uwch mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Esboniodd CB fod gordewdra yn niweidiol ynddo'i hun a nododd fod un o bob pymtheg o oedolion yng Nghaerdydd a'r Fro wedi cael diagnosis o ddiabetes math 2, ffigur y disgwylir iddo godi i un o bob un ar ddeg erbyn 2035.<br><br>Amlinellodd CB fod yr adroddiad yn archwilio newidiadau amgylcheddol a diwylliannol dros y degawdau diwethaf, megis llai o weithgarwch corfforol mewn ysgolion, mwy o ddefnydd o geir, a thwf siopau bwyd cyflym, ochr yn ochr â datblygiadau cadarnhaol fel deddfwriaeth iechyd gref Cymru a threth siwgr y DU. Nododd fod newidiadau diwylliannol yn cynnwys llai o goginio cartref, mwy o ddibyniaeth ar brydau parod, a llai o chwarae awyr agored, wedi'i waethygu gan gynnydd cyfryngau cymdeithasol a gemau cyfrifiadurol.<br><br>Esboniodd CB fod yr adroddiad hefyd yn edrych ymlaen, gan nodi ysgogwyr ar gyfer newid fel cynyddu mynediad at fannau gwyrdd, a all leihau gordewdra plant 2% am bob 1%o gynnydd mewn mannau gwyrdd hygyrch. I'r gwrthwyneb, gall deg siop bwyd cyflym ychwanegol mewn ardal awdurdod lleol arwain at gynnydd o 1% mewn gordewdra. Pwysleisiodd CB fod penderfyniadau sefydliadol yn bwysig a bod angen dull system gyfan, gan nodi tystiolaeth o Amsterdam lle gostyngodd cyfraddau gordewdra 3% drwy weithredu cydgysylltiedig.<br><br>Gosododd CB dri gofyniad allweddol i bartneriaid: rhoi pwyslais gweithgareddau ar atal, creu lleoedd a mannau cefnogol, a rhoi cymunedau wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Daeth i ben drwy dynnu sylw at enghreifftiau o newidiadau ymarferol, megis dylunio parciau a meysydd chwarae cynhwysol i annog gweithgaredd corfforol.<br><br>Esboniodd LB fod yr adroddiad yn gofyn am ystyriaeth sylweddol a'i fod yn cyd-fynd â gwaith y BGC ond bydd yn gofyn i bartneriaid gymryd rhan mewn sgyrsiau manylach. Tynnodd LB sylw at yr her o alluogi newid yn y meysydd hyn, gan esbonio, er bod cyfyngiadau ar hysbysebu afiach wedi'u gweithredu mewn mannau o fewn rheolaeth y Cyngor, mae llawer o ardaloedd y tu hwnt i'w gylch gorchwyl. Fodd bynnag, mae camau y gellir eu cymryd, ac mae'r cyngor hwn yn werthfawr.<br><br>Esboniodd CB fod y camau a gymerwyd hyd yn hyn yn bwysig ac yn gosod y Cyngor ar flaen y gad yng Nghymru o ran newidiadau i hysbysebu cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen mewn mannau sy'n eiddo iddynt. Cydnabu fod angen mwy o waith a chadarnhaodd y bydd hi'n eirioli dros waharddiad ledled Cymru a'r DU. Pwysleisiodd CB fod gweithredu fesul cam yn bwysig ac, er y gall deimlo fel nofio yn erbyn y llanw, y gall gweithredu ar y cyd wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Diolchodd i'r Cyngor am fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Esboniodd TB fod adroddiadau thematig y Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn hygyrch ac yn amserol, yn enwedig gyda'r tair galwad i weithredu. Mynegodd werthfawrogiad am yr ymgysylltu diweddar â thîm arweinyddiaeth y Cyngor ar atal. Awgrymodd TB fod yr adroddiad yn annog blaenoriaethu camau atal wrth sefydlu cyllideb a buddsoddiad yn gynt yn y broses. Cynigiodd rannu adroddiad CB gyda Thîm Partneriaeth a Chreu Lleoedd y Barri, gan ei fod yn cyd-fynd â'i waith presennol a gallai ychwanegu gwerth. Nododd TB fod camau ymarferol y gellir eu cymryd yn gyflym.<br><br>Cytunodd LB y byddai'n syniad da rhannu'r adroddiad. Nododd fod y Cyngor wedi symud i ffwrdd o anfon popeth at bwyllgorau craffu a bod sesiynau briffio yn cael eu cynnal erbyn hyn. Awgrymodd LB y gallai'r adroddiad hwn fod yn rhan o friffio aelodau, ochr yn ochr â gwaith ar fynegeion amddifadedd o bosibl.<br><br>Esboniodd DL fod yr adroddiad yn ardderchog ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd iaith hygyrch. Nododd ei fod yn cyd-fynd yn gryf â blaenoriaethau CNC, gan gynnwys teithio cynaliadwy, ffermio, gwytnwch hinsawdd, a mannau gwyrdd. Soniodd DL hefyd am fenter awr lles wythnosol CNC i gefnogi iechyd staff a chadarnhaodd gefnogaeth lawn CNC i'r gwaith hwn.<br><br>Diolchodd CB i DL am y gefnogaeth.<br><br>Esboniodd LB y dylai gwaith yn y dyfodol ystyried sut y gellir agor cyfleusterau ysgol newydd i gymunedau, gan fod gan lawer ohonynt fannau chwaraeon a gweithgareddau rhagorol sy'n cael eu tanddefnyddio.<br><br>Esboniodd CB fod hwn yn bwynt da a rhannodd brofiad o weithio gyda Chwarae Cymru i sicrhau bod ysgolion ar agor cyn ac ar ôl oriau ysgol ar gyfer chwarae. Gwahoddodd gysylltiadau pellach pan oedden nhw'n barod.<br><br>Awgrymodd HM y gellid rhannu'r adroddiad â'r Tîm Datblygu Chwarae a Chwaraeon hefyd, gan y byddai'n cefnogi eu gwaith a'u sylfaen dystiolaeth.<br><br>Cytunodd LB y byddai'n ddefnyddiol rhannu'r adroddiad â'r tîm.<br><br>Esboniodd HM fod trafodaethau wedi digwydd o ran sesiynau briffio Aelodau ynglŷn â threfnu un ar fwyd yn dilyn cyfarfod diwethaf y BGC. Awgrymodd ehangu'r sesiwn briffio i gynnwys materion cysylltiedig a chysylltu â gwaith cysylltiedig arall a chadarnhaodd y bydd trafodaethau pellach yn digwydd ar yr hyn a fyddai'n gweddu'n dda.<br><br>Awgrymodd EH y gellid rhannu'r adroddiad â'r gweithlu, gan fod staff yn rhan o'r gymuned ac yn cael cysylltiad rheolaidd â theuluoedd a rhwydweithiau lleol. Tynnodd EH sylw at y ffaith bod yr adroddiad yn hygyrch ac nid yn rhy gorfforaethol, gan ei wneud yn addas i'w rannu'n ehangach. Pwysleisiodd fod partneriaid gyda'i gilydd yn cyflogi nifer sylweddol o bobl, ac mae hyn yn gyfle i annog myfyrio ar newidiadau bach yn y ffordd o fyw heb hyrwyddo cywilydd tewdra neu gywilydd ffordd o fyw. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Diolchodd CB i EH am yr awgrym a chytunodd ei fod yn syniad da. Cadarnhaodd y byddai ei sefydliad yn rhannu'r adroddiad yn fewnol ac anogodd eraill i wneud yr un peth. Pwysleisiodd CB fod yr adroddiad yn canolbwyntio ar ddylanwadau amgylcheddol yn hytrach na bai unigol, gan nodi bod ffactorau fel hysbysebu yn llywio ymddygiad yn sylweddol. Rhannodd enghraifft o gyfrif 20 o hysbysebion llawn braster, siwgr a halen ar daith fer, gan ddangos natur dreiddiol dylanwadau o'r fath.<br><br>Ychwanegodd EH y gallai codi ymwybyddiaeth ymhlith staff eu helpu i rannu'r neges o fewn eu rhwydweithiau personol.<br><br>Cytunodd CB a chadarnhaodd fod croeso i bartneriaid rannu'r adroddiad yn eang.<br><br>Cefnogodd LB y syniad a gofynnodd a oedd sleidiau ar gael i'w rhannu'n rhwydd ar fewnrwydi, gan nodi y byddai hyn yn ddefnyddiol ar gyfer ymgysylltu â staff.<br><br>Cadarnhaodd CB y gellid darparu sleidiau cryno.<br><br>Croesawodd LB y cynnig hwn a diolchodd i CB, gan nodi y byddai'n ddefnyddiol iawn. | |
| **6.** | **Bwyd Da a Symudiad** – Suzanne Wood, Tîm Iechyd y Cyhoedd Lleol BIP Caerdydd a'r Fro<br><br>Esboniodd SW fod y Fframwaith Bwyd Da a Symudiad yn darparu dull systemau cyfan o bwysau iach. Hysbysodd SW fod y rhaglen wedi derbyn y Wobr Gwella Practis yn ddiweddar gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, gan guro dau gystadleuydd arall ar y rhestr fer. Diolchodd i bartneriaid am eu cyfraniadau a nododd arwyddocâd y cyflawniad.<br><br>Hysbysodd SW bartneriaid bod y fframwaith yn rhedeg o 2024 tan 2030 ac ar hyn o bryd yn yr ail flwyddyn o weithredu. Dosbarthwyd crynodeb o gynllun yr ail flwyddyn a'r cyflawniadau ar gyfer y chwe mis cyntaf gyda phapurau'r cyfarfod. Tynnodd SW sylw at gynnydd cryf, gyda'r rhan fwyaf o gamau gweithredu wedi eu graddio'n wyrdd, ac adroddodd welliannau mewn pwysau iach ymhlith plant ym Mro Morgannwg. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod gan 77.5% o blant oedran derbyn bwysau iach, i fyny o 76.9% y flwyddyn flaenorol. Mae'r bwlch rhwng yr amddifadedd mwyaf a lleiaf yn parhau i fod yn 9.9%, sydd wedi gostwng ychydig o 10%, gan nodi cynnydd ond dim lle i fod yn hunanfodlon.<br><br>Amlinellodd SW bedair thema strategol y fframwaith — Lleoliadau Iach, Amgylchedd Iach, Pobl Iach, ac Arweinyddiaeth a Galluogi Newid — a darparodd ddiweddariadau ar bob un:<br><br>Amgylchedd Iach: Mae'r gwaith yn parhau i ymgorffori iechyd a lles yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Tynnwyd sylw at bolisi hysbysebu a noddi y Fro, y cyntaf yng Nghymru i gyfyngu ar hysbysebu bwydydd a diodydd sydd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen ar ystadau'r Cyngor ac ar-lein, fel cyflawniad mawr. Mae'r Pecyn Cymorth Cegin Gymunedol wedi'i gymeradwyo, ac mae archwiliad cyfleustodau ar y gweill i asesu'r ddarpariaeth gweithgaredd corfforol. Mae cynlluniau teithio llesol wedi'u hariannu hefyd ym Mhenarth a pharthau gwledig. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Lleoliadau Iach: Cynhaliwyd gweithdai i nodi rhanddeiliaid system ar gyfer y blynyddoedd cynnar ac ysgolion, gan gefnogi dull gweithredu ysgol gyfan at fwyd a gweithgaredd corfforol. Cadarnhaodd SW fod prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd wedi'u cyflwyno'n llawn yn y Fro erbyn hyn.<br><br>Pobl Iach: Mae Bwyd y Fro wedi ennill Gwobr Arian Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, sy'n adlewyrchu ymdrech gydweithredol sylweddol. Mae dau gynllun grant bach wedi'u lansio i fynd i'r afael â mynediad at fwyd ac ansicrwydd bwyd. Mae hyfforddiant budd-daliadau bwyd wedi'i adnewyddu, ac mae'r rhaglen Pàs Aur ar gyfer pobl dros 50 yn cynnwys 38 o bartneriaid dan arweiniad y gymuned bellach. Mae Rhwydwaith Merched wedi'i sefydlu i lunio mentrau gweithgaredd corfforol ar gyfer menywod a merched yn y dyfodol. Mae adroddiadau ar rwystrau i fwydo ar y fron a chamau gweithredu i fynd i'r afael â hyn wedi'u cyhoeddi hefyd.<br><br>Arweinyddiaeth a Galluogi Newid: Mae'r fframwaith bellach yn cael ei gynnal yn ffurfiol gan Uwch Dîm Arwain Cyngor y Fro, cytunwyd 11 Tachwedd. Cyfeirir ato yng Nghynllun Corfforaethol y Fro (Y Fro 2030). Mae sesiynau fframio iaith wedi'u cyflwyno i sicrhau bod negeseuon yn hygyrch ac nad ydynt yn unigol, a bod dadansoddi data wedi llywio cyfathrebu allweddol.<br><br>Diolchodd LB i Suzanne am y cyflwyniad a nododd y cynnydd da sydd wedi'i wneud, gan dynnu sylw at yr iaith hygyrch a ddefnyddiwyd yn y fframwaith a'i fod yn cyd-fynd ag adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd. Pwysleisiodd LB fod y dull hwn yn ei gwneud yn haws rhannu ac yn cefnogi newid arwyddocaol.<br><br>Dywedodd HM ei bod yn galonogol gweld effeithiau'r gwaith a sut mae'n cysylltu â ffrydiau gwaith blaenoriaeth y BGC. Nododd fod mentrau fel y Pàs Aur yn cysylltu'n gryf â gwaith ac ymdrechion Oed-gyfeillgar mewn cymunedau ag amddifadedd lluosog. Tynnodd HM sylw hefyd at gysylltiadau rhwng hinsawdd, natur a lles, gan bwysleisio pwysigrwydd ystyried y fframwaith yn brosiect trawsbynciol. Cyfeiriodd at gynlluniau grant diweddar sy'n gysylltiedig â Bwyd y Fro ac esboniodd sut roedd y rhain yn cyd-fynd â chyllid mannau cynnes, a reolir gan GGM, i sicrhau'r budd cymunedol mwyaf posibl drwy weithio mewn partneriaeth.<br><br>Diolchodd LB i HM a myfyriodd ar y rhaglen Bwyd a Hwyl, a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 10 oed yn ddiweddar. Mynegodd LB bryder bod ysgolion yn aml yn ei chael hi'n anodd cynnal y rhaglenni hyn, gan gyfyngu mynediad i blant a fyddai'n elwa arnynt. Awgrymodd adolygu p'un a yw'r trefniadau presennol yn rhy ragnodol ac archwilio ffyrdd o alluogi cyfranogiad ehangach, o ystyried y cyfleoedd ar gyfer bwyta'n iach, addysg a gweithgaredd corfforol yn ystod gwyliau'r ysgol.<br><br>Cododd DL y mater o ansawdd dŵr ymdrochi, gan nodi er bod gan y Fro ansawdd dŵr da yn gyffredinol, mae pryderon ym Mae'r Tŵr Gwylio ac Aberogwr gerllaw. Pwysleisiodd fod mynd i'r afael â'r materion hyn yn gofyn am weithio mewn partneriaeth, amser a mesurau ataliol, a chadarnhaodd fod hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth.<br><br>Nododd TB yr angen i archwilio dulliau cyllido cynaliadwy ar gyfer gwaith ataliol, gan gyfeirio at drafodaethau yn yr UDA am fapio camau ataliol yn erbyn llwybrau | |

| | | |
|---|---|---|
| | clinigol. Awgrymodd ddefnyddio enghreifftiau o'r fframwaith Bwyd Da a Symudiad i ddatblygu dealltwriaeth a chefnogi cyllidebu ataliol, gan adeiladu ar waith a rennir gan Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Croesawodd SW y cynnig, gan nodi ei fod yn cyd-fynd ag adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a phwysigrwydd symud tuag at wariant atal. Cadarnhaodd y byddai cyllid ychwanegol yn helpu i gynyddu capasiti i gyflawni camau gweithredu a dywedodd fod gwaith ar y gweill i ddatblygu'r ail gynllun gweithredu dwy flynedd, gan ddechrau ym mis Ebrill. Gwahoddodd SW bartneriaid i gyfrannu a chyhoeddodd y bydd y cynllun yn cael ei lansio ochr yn ochr ag adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd mewn digwyddiad ar y cyd. | |
| **7**. | **Adroddiad Diweddaru 6 Mis y BGC** - Lloyd Fisher, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Mewnwelediad, Cyngor Bro Morgannwg<br><br>Cyflwynodd LF yr adroddiad diweddaru chwe mis, gan esbonio ei fod yn ategu'r adroddiad blynyddol a gyflwynir i'r BGC ym mis Gorffennaf. Mae'r adroddiad yn darparu cipolwg lefel uchel ar gynnydd ar draws prosiectau sy'n cyd-fynd â'r tri amcan lles a'r ffrwd waith flaenoriaeth. Nododd LF fod adroddiadau cynnydd manwl ar gael trwy ddolenni ar ddiwedd y ddogfen ac anogodd bartneriaid i edrych ar y rhain i gael rhagor o wybodaeth.<br><br>Tynnodd LF sylw at enghreifftiau o gynnydd, gan gynnwys:<br>• Cynhaliwyd y Caffi Cysylltiad Oed-gyfeillgar ym Mhier Penarth ym mis Mehefin, a ddaeth â 50 o sefydliadau partner at ei gilydd i gryfhau cydweithredu a dysgu a rennir.<br>• Canolbwyntiodd y prosiect Eich Lle Chi, a gyflwynodd weithdai dros yr haf ar iechyd a chyflogaeth mewn cymunedau sy'n profi lefelau uwch o amddifadedd.<br>• O dan y ffrwd waith Argyfwng Hinsawdd a Natur, mae ymgynghorwyr wedi'u penodi gan ddefnyddio adnoddau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gynnal Asesiad Risg Newid Hinsawdd ar gyfer y Fro. Mae dau weithdy wedi'u trefnu yr wythnos hon i adolygu canfyddiadau.<br>• Cynnydd parhaus o dan Bwyd Da a Symudiad, gan gynnwys cyfyngu ar hysbysebu cynhyrchion sydd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen ar safleoedd a reolir gan y Cyngor, cwblhau Strategaeth Bwyd y Fro, a chyflawni'r Wobr Arian Lleoedd Bwyd Cynaliadwy.<br><br>Cadarnhaodd LF fod mesurau allweddol a dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u datblygu gydag arweinwyr prosiectau a byddant yn bwydo i adroddiadau blynyddol a'r Asesiad Lles nesaf. Diolchodd i arweinwyr prosiectau am eu cyfraniadau ac APP am lunio'r adroddiad, sydd bellach ar gael ar wefan y BGC. | |
| **8.** | **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) –** Lloyd Fisher, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Mewnwelediad, Cyngor Bro Morgannwg<br><br>Cyflwynodd LF Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yr wythnos diwethaf. Eglurodd mai MALIC yw'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru, gan raddio'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) o'r amddifadedd mwyaf | |

| | | |
|---|---|---|
| | i'r lleiaf yn seiliedig ar wyth maes wedi'u pwysoli: incwm (22%), cyflogaeth (22%), iechyd (15%), addysg (14%), mynediad at wasanaethau (10%), tai (9%), diogelwch cymunedol (5%), a'r amgylchedd ffisegol (5%).<br><br>Nododd LF fod gan y Fro 82 o ACEHI erbyn hyn, i fyny o 79 yn 2019 oherwydd twf poblogaeth. Mae'r safleoedd yn amrywio o 32 (amddifadedd mwyaf) i 1,910 (amddifadedd lleiaf). Mae saith AGEHI yn y Barri yn y 10% uchaf o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru erbyn hyn, o'i gymharu â thri yn 2019. Mae pedwar AGEHI arall yn disgyn o fewn y 10–20% â'r amddifadedd mwyaf, a phedwar o fewn yr ystod 20–30%. Mae 13 AGEHI wedi'u rhestru yn yr ystod 30–50%, tra bod 54 yn y 50% â'r amddifadedd lleiaf.<br>Tynnodd LF sylw at y ffaith nad yw canlyniadau'n cymharu'n uniongyrchol oherwydd newidiadau methodolegol ers 2019. Mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys dangosyddion newydd ar gyfer incwm (sy'n adlewyrchu cyflwyno Credyd Cynhwysol) a chyflogaeth (gan gynnwys y rhai sydd wedi'u heithrio o'r farchnad lafur oherwydd cyfrifoldebau gofalu). Mae meysydd iechyd ac addysg yn parhau i fod yn lled gyson, er bod addysg yn defnyddio mesurau absenoldeb ar wahân ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd erbyn hyn ac yn cynnwys cymwysterau isel fel dangosydd. Hysbysodd LF fod 6 AGEHI wedi'u rhestru yn y 10% uchaf o ran y maes Incwm, 8 o ran y maes Cyflogaeth, 5 o ran y maes Iechyd a 5 o ran y maes Addysg; mae pob un wedi'i lleoli yn y Barri.<br><br>Tynnodd LF sylw at y ffaith bod y maes Mynediad at Wasanaethau yn adlewyrchu natur wledig rhai ACEHI y Fro. Mae'r maes hwn yn cynnwys dangosyddion ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat ac yn ymgorffori darpariaeth gofal plant erbyn hyn. Mae tri AGEHI - Saint-y-brid, Llanbedr-y-fro a Saint Andras - yn y 10% â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau.<br><br>Cadarnhaodd LF nad oes unrhyw AGEHI Y Fro o fewn y 10% uchaf ar gyfer y maes Tai.<br><br>Ar gyfer Diogelwch Cymunedol, mae tri AGEHI yn y Barri wedi'u rhestru yn y 10% uchaf, yn dilyn newidiadau methodolegol a gynyddodd nifer y dangosyddion a ddefnyddir. O dan y maes Amgylchedd Ffisegol, mae dau AGEHI - Dinas Powys 4 (oherwydd perygl llifogydd) a Cadog 5 (mynediad cyfyngedig i fannau gwyrdd) - yn y 10% uchaf.<br><br>Daeth LF i ben drwy nodi y bydd sleidiau'n cael eu dosbarthu i bartneriaid eu darllen ac y bydd dadansoddiad pellach yn bwydo i'r Asesiad Lles nesaf. Bydd adroddiad manwl yn cael ei ddwyn yn ôl i'r BGC i'w drafod.<br><br>Myfyriodd LB ar ddata MALIC, gan nodi ei fod yn tynnu sylw at anghydraddoldebau amlwg ac yn codi pryderon ynghylch cyfleoedd bywyd a gollwyd dros y chwe blynedd diwethaf a'r risg o golledion pellach os nad yw partneriaid yn gweithredu ar y cyd. Pwysleisiodd LB fod ymyriadau yn aml o fudd i'r cymunedau â'r amddifadedd lleiaf yn hytrach na'r rhai sydd â'r angen mwyaf a phwysleisiodd bwysigrwydd gweithredu targedig. Awgrymodd drafodaethau all-lein pellach i nodi camau ymarferol i osgoi bod yn yr un sefyllfa ymhen chwe blynedd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhannodd MA sut mae Heddlu De Cymru yn defnyddio data MALIC ochr yn ochr â gwybodaeth am y galw a demograffeg i nodi cymunedau sydd mewn perygl a thargedu adnoddau ataliol ac adweithiol yn effeithiol. Rhybuddiodd yn erbyn blaenoriaethu ymyriadau ar gyfer y cymunedau mwyaf uchel eu cloch yn hytrach na'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Argymhellodd MA fod aelodau'r BGC yn adolygu Cynllun y Barri ar gyfer Cymdogaethau, sy'n mapio'n glir ardaloedd o angen, i lywio penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol o dan y gronfa 10 mlynedd gwerth £20 miliwn.<br><br>Pwysleisiodd EH yr angen i asiantaethau ganolbwyntio ar weithredu ar y cyd yn y cymunedau â'r amddifadedd mwyaf. Tynnodd sylw at ddiffyg ymddiriedaeth cynyddol mewn gwasanaethau statudol a galwodd am waith cydweithredol â chymunedau, yn hytrach na gorfodi atebion. Awgrymodd EH nodi'r tri ysgogydd mwyaf y gall partneriaid eu tynnu at ei gilydd i gael yr effaith fwyaf o fewn yr adnoddau sydd ar gael.<br><br>Pwysleisiodd CB bwysigrwydd defnyddio dull gweithredu system gyfan i osgoi ymyriadau sy'n cynyddu anghydraddoldebau yn anfwriadol. Rhoddodd yr enghraifft o wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu, lle mae tuedd iddyn nhw fod o fudd i'r rhai sydd â mwy o asiantaeth mewn ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf, tra bod newidiadau ar lefel polisi fel mannau cyhoeddus di-fwg yn cael effaith fwy teg. Ailadroddodd CB y tri gofyniad allweddol yn adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd:<br>1. Canolbwyntio ar gamau atal.<br>2. Creu lleoedd a mannau cefnogol.<br>3. Rhoi cymunedau wrth wraidd y gweithredu.<br><br>Sylwodd PS er bod y Barri yn cynnwys y crynodiadau uchaf o amddifadedd, mae ardaloedd gwledig yn profi heriau penodol hefyd, yn enwedig o ran mynediad at wasanaethau. Pwysleisiodd yr angen i fynd i'r afael â hyn ochr yn ochr ag amddifadedd trefol.<br><br>Cytunodd LB, gan dynnu sylw at y ffaith bod trafnidiaeth gyhoeddus yn fater allweddol mewn ardaloedd gwledig a chadarnhau bod y Cyngor yn defnyddio data arolwg i lobïo am welliannau. Rhoddodd sicrwydd i bartneriaid bod hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth a chynigiodd rannu data perthnasol. | |
| **9.** | **Eich Lle Chi** – Helen Moses, Rheolwr Gweithredol Strategaeth Gorfforaethol a Mewnwelediad, Cyngor Bro Morgannwg<br><br>Rhoddodd HM ddiweddariad ar y gwaith o fewn tair ardal flaenoriaeth — Gibbonsdown 2, Court 3, a Buttrills 2 — a oedd yn y 10% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn MALIC 2019 ac sy'n parhau i fod yn flaenoriaethau yng Nghynllun Lles BGC. Mae grŵp llywio gyda nifer o bartneriaid wedi bod yn cydlynu ymgysylltiad a gweithgareddau yn y cymunedau hyn, gyda chymorth cyllid CFfG ar gyfer swydd bwrpasol tan fis Mawrth 2025. Nododd HM fod y swyddog a arweiniodd y gwaith hwn yn flaenorol, wedi symud i rôl o fewn Partneriaeth ehangach y Barri o dan y rhaglen "Cymdogaethau Ffyniannus", gan symud ei gwybodaeth ymlaen i gefnogi mentrau ehangach.<br>Esboniodd HM, er bod cynnydd wedi'i wneud, mae ymadawiad y cydlynydd yn her. Mae cymorth yn cael ei ddarparu yn y cyfamser i gynnal momentwm a | **Ehangu cwmpas y gwaith i gynnwys y saith AGEHI a nodwyd ym Malc 2025** |

| | | |
|---|---|---|
| | chynorthwyo cadeiryddion is-grwpiau. Mae dau is-grŵp wedi'u sefydlu yn dilyn gweithdai ymgysylltu cymunedol cynharach:<br><br>• Is-grŵp Cyflogaeth: Mae mentrau'n cynnwys gweithgareddau ar ôl ysgol mewn ysgol uwchradd i ymgysylltu â theuluoedd a darparu cyngor, a gweithio gyda phartneriaid i adolygu prosesau recriwtio ar gyfer rolau lefel mynediad, gan fynd i'r afael â rhwystrau a nodwyd gan breswylwyr.<br>• Is-grŵp Iechyd: Mae'r cynlluniau'n cynnwys digwyddiadau iechyd yn gynnar yn 2026 i ddod â gwasanaethau i gymunedau a gwella hygyrchedd, gan ymateb i adborth bod rhai trigolion yn teimlo eu bod yn cael eu barnu neu eu hannog i beidio â chael mynediad at wasanaethau presennol.<br><br>Nododd HM yr angen i gynnal parhad mewn aelodaeth grŵp llywio ac osgoi dyblygu â mentrau eraill, yn enwedig wrth i Bartneriaeth y Barri ehangu ei gwaith. Pwysleisiodd fod y BGC yn parhau i fod wedi ymrwymo i'r blaenoriaethau hyn a bod yn rhaid ystyried y ffordd orau o ddefnyddio gwasanaethau ac adnoddau presennol o ystyried cyllid pwrpasol cyfyngedig.<br><br>Tynnodd HM sylw at y ffaith bod MALIC 2025 yn nodi saith ardal sydd yn y 10% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf, i fyny o dair yn 2019. Efallai y bydd angen ehangu ffocws y gwaith presennol neu alinio ymdrechion â rhaglen ehangach y Barri i sicrhau'r effaith orau posibl.<br><br>Diolchodd LB i HM am ei diweddariad a nododd werth y gwaith ymgysylltu diweddar wrth lywio "Cynllun Cymdogaethau" y Barri. Tynnodd LB sylw at yr her o esblygu sgyrsiau gyda chymunedau nad ydynt wedi arfer â bod yn rhan o ymgynghoriad, gan bwysleisio pwysigrwydd symud y tu hwnt i geisiadau am amwynderau i drafodaethau dyfnach am ansawdd bywyd ac anghenion hirdymor.<br><br>Myfyriodd TB ar y cyd-fynd cryf ar draws cynlluniau partner ac atgyfnerthodd bwysigrwydd nodi ysgogwyr ar y cyd ar gyfer newid a chynnwys cymunedau mewn dull gweithredu systemau cyfan. Argymhellodd ehangu'r prosiect presennol i gynnwys y saith AGEHI sydd bellach ymhlith y 10% sydd â'r amddifadedd mwyaf, yn hytrach na chyfyngu gwaith i'r tair ardal wreiddiol. Nododd TB y cynnydd a wnaed trwy'r gweithdai a gweithgareddau'r is-grwpiau ond mynegodd bryder bod awdurdod gwneud penderfyniadau a dyraniad adnoddau yn parhau i fod yn rhwystrau. Gofynnodd i bartneriaid ystyried a yw'r gynrychiolaeth yn yr is-grwpiau yn parhau i fod yn gywir er mwyn galluogi gweithredu crynodedig a sicrhau effaith orau posibl yr adnoddau presennol.<br><br>Cododd PS gwestiwn am rôl yr ystâd addysg wrth wella mynediad at wasanaethau a chyfleoedd.<br><br>Pwysleisiodd EJ bwysigrwydd cydnabod ysgolion fel asedau allweddol a chynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau. Tynnodd sylw at yr angen i gofnodi ystod ehangach o leisiau, yn enwedig o gymunedau sy'n ymgysylltu'n llai, ac alinio'r gwaith hwn â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Nododd EJ, er bod gan y Fro lawer o ddisgyblion sy'n mynegi eu hunain yn glir, rhaid gwneud ymdrechion i gyrraedd y rhai nad yw eu barn yn cael ei chlywed gymaint. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ychwanegodd HM y bydd y digwyddiad iechyd arfaethedig yn cael ei gynnal mewn ysgol uwchradd sy'n cael ei mynychu gan blant o'r ardaloedd blaenoriaeth a nodwyd, gyda phobl ifanc yn cymryd rhan weithredol i annog cyfranogiad teuluoedd. Bydd y digwyddiad wedi'i gynllunio i fod yn ddifyr ac yn hwyliog, gan adeiladu ar weithgareddau ar ôl ysgol llwyddiannus a dreialwyd mewn ysgol arall. Tynnodd HM sylw at werth swyddogion ymgysylltu â theuluoedd fel cyfryngwyr dibynadwy, gan nodi eu rôl wrth frocera sgyrsiau a chefnogi mentrau fel cynyddu lefelau imiwneiddio plant. Pwysleisiodd bwysigrwydd defnyddio ysgolion fel hybiau cymunedol ond yn glir am gyfrifoldebau er mwyn osgoi eu gorlwytho.<br><br>Rhannodd MML enghraifft o fenter ar raddfa fach a ariennir drwy raglen "Penaethiaid Lle" CNC. Drwy weithio gyda GGM a Dechrau'n Deg, trefnodd CNC weithdai gweithgareddau awyr agored i fenywod ar restrau aros am gymorth proffesiynol, gyda'r nod o fagu hyder a defnyddio mannau gwyrdd lleol. Esboniodd MML fod y dull yn dechrau'n fach, gyda photensial i gynyddu os yw'n llwyddiannus, ac yn dangos sut y gall ymyriadau sy'n seiliedig ar natur gefnogi lles.<br><br>Myfyriodd LB ar gymhlethdod amddifadedd o fewn cymunedau cymysg, gan rannu enghraifft bersonol i ddangos sut mae profiad byw yn aml yn wahanol i ragdybiaethau sy'n seiliedig ar ddaearyddiaeth. Pwysleisiodd yr angen am ddull "dim drws anghywir", lle mae unrhyw bwynt cyswllt yn dod yn gyfle i nodi a mynd i'r afael ag anghenion, hyd yn oed pan fydd unigolion yn cael trafferth eu mynegi.<br><br>Gofynnodd TB a oedd cydweithwyr yn fodlon ehangu cwmpas y gwaith i gynnwys y saith AGEHI a nodwyd ym MALIC 2025. Cadarnhaodd LB gytundeb, gan nodi bod cefnogaeth weladwy gan aelodau a chymeradwyo'r cynnig. | |
| **10.** | **Diweddariad ar Ganol Tref y Barri –** Rob Thomas, Prif Swyddog Gweithredol**,** Cyngor Bro Morgannwg<br><br>Rhoddodd RT ddiweddariad ar gynlluniau adfywio ar gyfer Canol Tref y Barri, gan ganolbwyntio ar Heol Holltwn, sy'n gorwedd o fewn ardaloedd blaenoriaeth MALIC. Cadarnhaodd fod y Cyngor wedi cyfnewid contractau ar hen siop Wilko, yr uned wag fwyaf ar Heol Holltwn, ac yn disgwyl cwblhau'r pryniant o amgylch y Nadolig. Mae gwiriadau cychwynnol ar gyfleustodau a chyflwr adeilad ar y gweill.<br><br>Esboniodd RT mai'r nod yw adfywio Heol Holltwn fel canolfan wasanaeth allweddol i drigolion sydd â mynediad cyfyngedig i drafnidiaeth, wrth gefnogi busnesau lleol. Mae'r cynlluniau'n cynnwys gweithio gyda Phartneriaeth y Barri i gyd-ddylunio defnydd yr adeilad yn y dyfodol, gyda syniadau fel lle marchnad ar gyfer masnachwyr annibynnol tebyg i farchnadoedd Pontypridd neu Gasnewydd. Mae llawr uchaf yr adeilad yn cynnig cyfleoedd ychwanegol ar gyfer defnydd cymunedol.<br><br>Gwahoddodd RT bartneriaid BGC i gefnogi digwyddiad ar ffurf arddangosfa tua dechrau 2026, gan agor yr adeilad i drigolion ac arddangos gwasanaethau fel cyngor cyflogaeth, gwybodaeth iechyd, cymorth tai a budd-daliadau, a chyfleoedd hamdden. Bydd y digwyddiad yn hyrwyddo gwaith atal ac yn gwella mynediad at wasanaethau yn un o ardaloedd mwyaf agored i niwed y Barri.<br><br>Amlinellodd RT ddau brosiect arall hefyd: | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Siop Filco (Stryd Thompson): Mae trafodaethau'n parhau gyda chydweithwyr y Bwrdd Iechyd a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ail-bwrpasu'r safle ar gyfer gwasanaethau integredig.<br>• Porth y Gorllewin (Gladstone Road): Cynlluniau ar gyfer cynllun newydd sy'n cyfuno tai fforddiadwy a chyfleuster integredig ar gyfer iechyd a gwasanaethau'r Cyngor, a ariennir gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru.<br><br>Daeth RT i ben drwy nodi bod y datblygiadau hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r BGC a byddant yn cyflwyno manteision sylweddol i gymunedau sydd â'r angen mwyaf. Bydd diweddariadau pellach yn cael eu rhannu wrth i'r gwaith fynd rhagddo.<br><br>Diolchodd LB i RT am ei ddiweddariad a chydnabu cymhlethdod darparu gorsafoedd integredig ac alinio ffrydiau cyllid lluosog. Canmolodd Llywodraeth Cymru am alluogi caffael siop Wilko yn gyflym a nododd ddiddordeb cryf y cyhoedd, a adlewyrchir yn yr ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol ac awgrymiadau niferus gan drigolion. Esboniodd LB y bydd y digwyddiad arddangos arfaethedig yn rhoi cyfle i'r gymuned weld y lle, rhannu syniadau, a chymryd rhan mewn deialog am ei ddefnydd yn y dyfodol. Pwysleisiodd LB bwysigrwydd cyfranogiad y sector gwirfoddol i wneud y fenter yn llwyddiant. | |
| **11.** | **Blaenraglen Waith 2026 BGC y Fro**<br><br>Cadarnhaodd HM fod dyddiadau cyfarfodydd y BGC ar gyfer 2026 wedi'u dosbarthu a gwahoddodd bartneriaid i roi gwybod am unrhyw eitemau maen nhw eisiau eu cynnwys. Nododd nad oedd rhai eitemau a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer 2025 wedi symud ymlaen ac efallai y byddant yn cael eu dileu. Mae pynciau allweddol y blaengynllun yn cynnwys:<br>• Adroddiad Blynyddol y BGC<br>• Gwaith cychwynnol ar yr Asesiad Lles nesaf.<br>• Eitem agenda sy'n canolbwyntio ar brosiectau adfywio, gan gynnwys Canol Tref y Barri.<br>• Cyflwyno canfyddiadau'r Asesiad Risg Newid Hinsawdd, yn dilyn gweithdai sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd.<br><br>Pwysleisiodd HM werth agendâu thematig i gefnogi trafodaethau cynhyrchiol ac annog partneriaid i rannu unrhyw flaenoriaethau ychwanegol i sicrhau bod digon o amser yn cael ei ddyrannu. | |
| **12.** | **Unrhyw Fater Arall**<br><br>Ni chodwyd unrhyw fusnes arall. | |
| **13.** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf – 3 Chwefror 2026** | |